

DAMEG Y RHWYD.

Emyn: 789 ‘*Gwawr wedi hirnos.*’

Darlleniad: Mathew 13:47-50.

Neges: Un o'r pethau anoddaf yn ystod y pandemig yw gorfod bod ar wahân o anwyliaid – gweithwyr ar 'y linell flaen' fel nyrsys a gofalwyr yn byw ar wahân i'w teuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel. Plant heb weld eu rhieni am rai misoedd a thad-cu/mam-gu heb weld yr wyrion/wyresau am wythnosau oherwydd bod rhaid cadw ar wahân. Yn y ddameg hon, eto am deyrnas nefoedd, mae lesu yn cyfeirio at **y farn olaf**. Mae'r gair 'barn' yn golygu '**gwahanu**' (to separate). Yn y Groeg '*krisis*' mae'n golygu '**i rannu**.' Wrth wynebu argyfwng (crisis) mae rhaid gwneud penderfyniad, rhaid dewis pa gyfeiriad rydym am ymlwybro!

Gwnaeth lesu gyfeirio at farn, a gwahanu, mwy nag unwaith yn ystod ei weinidogaeth. Gwahanu rhwng defaid a geifr, yr ymrannu rhwng 5 geneth gall a 5 ffôl a'r gwahaniaethu rhwng gwas ffyddlon ac anffyddlon. Mae 'na 3 gwirionedd pwysig am y gwahanu y gwna lesu sôn amdano.

1. Diamodol (absolute): Ar ddydd barn nid oes lle am gymysgwch i'w gael. Beth mae'n golygu? Yn ein byd presennol gwnawn gymysgwch o bethau da a drwg. Hyd yn oed o fewn ein capeli ceir cymysgwch o bobl gyfiawn (sydd yn iawn gyda Duw) a phobl anghyfiawn (nad sydd yn wir adnabod Duw). Pan ddaw dydd barn a Duw yn danfon Ei angylion i weithredu Ei ewyllys, daw'r cymysgwch i ben – naill ai byddwn ymhliith y cyfiawn neu'r anghyfiawn! Bydd yn rhy hwyr i dderbyn neu i wrthod Crist ar ôl hyn. Ni ellir bod o fewn dwy garfan (nac eistedd ar y ffens). Naill ai rydym ymhliith y rhai a phrofir o fendith Duw a derbyn glanhad llwyr o'n pechod trwy lesu Grist. Neu y byddwn ymhliith y colledig gan brofi arwahanrwydd o lesu Grist, a hynny am dragwyddoldeb!

2. Wedi Ei Benodi (Previously Determined): Mae canlyniad y gwahanu wedi ei benodi ar sail yr hyn mae person wedi ei benderfynu ar y ddaear. **Beth yw'r dewis?** Gan ddychwelyd at y damhegion cynt, a ydym wedi derbyn had yr efengyl i'r galon neu wedi ei wrthod? (Dameg yr Heuwr). A ydym yn barod 'i werthu'r cyfan sydd gennym (h.y. symud pob rhwystr) er mwyn darganfod y trysor sef efengyl lesu Grist? A ydym yn wir credu yn lesu, yn Arglwydd ac yn Waredwr?

3. Parhaol (Permanent): Yn y ddameg am ‘Y Dyn Cyfoethog a Lasarus’ (Luc 16), medd Iesu, “*Heblaw hyn oll, rhyngom ni a chwi y mae agendor llydan wedi ei osod, rhag i neb a ddymunai hynny groesi oddi yma atoch chwi, neu gyrraedd oddi yna atom ni,*” 26. Beth mae’n golygu? Ar ôl i ni farw, nid oes modd symud o un lle i'r llall, o uffern i'r nefoedd – mae'n rhy hwyr. Nawr yw'r amser i ddewis!

Nid yw rhain yn eiriau dymunol, ond dyma wna Iesu ddysgu a'r Beibl ddatgan. Mae 'na un person sydd yn datgan, "Beth yw'r ots? 'Does dim rhaid penderfynu yn awr. Mae 'na ddigon o amser i benderfynu!" Satan yw'r twyllwr. Nid ydyw am i ni fod yn barod ar gyfer dydd barn ac nid ydyw am i ni brofi bendithion y nef. Peidiwch â gwrandeo arno. Nid ydyw'n poeni am eich bywyd na'ch enaid. Gwrandewch ar Iesu, y Gwirionedd. Mae'n sôn yn y ddameg bod dydd barn yn real ac mae nawr yw'r amser i droi at Dduw (ac Iesu Grist) os am osgoi profi arwahanrwydd oddi wrtho Ef a'r Tad, a hynny am byth! Ydy, mae bod ar wahân o anwyliaid yn ofnadwy ond dychmygwch fod ar wahân o Dduw a hynny am byth!

Gweddi:

O Dduw Dad, diolch am ein cadw'n ddiogel yn ystod y pandemig creulon yma. Diolch eto am y gweithwyr 'ar flaen y gad' sydd wedi cynnal a chadw'r wlad i weithredu mewn cyfnod anodd. Dyro i ni amynedd wrth aros i ddychwelyd i'n capeli, gan sicrhau pan fyddwn yn dychwelyd y bydd ein cyfarfodydd yn rhai diogel.

Ar ôl amser 'y cloi mawr' (lockdown) diolch bod rhyddid i symud o amgylch y wlad ychydig yn fwy'r dyddiau rhain. Ond parhawn i weddîo dros deuluoedd a chyfeillion sydd heb weld ei gilydd ers amser hir ac sydd wedi bod ar wahân am gyfnod o rai misoedd bellach. Diolchwn am Iesu Grist, a ddaeth i'n byd ac y bu farw dros ein pechodau. Trwy gredu ynddo gallwn brofi o'i gwmni yn awr a derbyn y sicrwydd na fydd rhaid i ni fod ar wahân iddo Ef na'r Tad byth mwy. Amen.

THE PARABLE OF THE NET.

Hymn: 944 'Amazing grace!'

Reading: Matthew 13:47-50.

Message: One of the most difficult aspect of this current pandemic is having to be separated from loved ones. There have been workers on the front line such as nurses and care workers who have separated themselves from their loved ones so as to keep them safe. There are children who have not seen their parents for weeks and grandparents who have had to live apart from their grandchildren for months. In this parable, which once again refers to *the kingdom of heaven*, Jesus speaks about **the final judgment**. The word 'judgement' means 'to separate.' In the Greek, 'krisis' means 'to divide.' When facing a crisis in our lives we have a choice to make, whether to go in one direction or another.

Jesus referred to judgement and separation many times during his ministry. He spoke of separating sheep from goats, the separation between 5 wise virgins and 5 foolish virgins and he differentiated between faithful and unfaithful servants. Today, we look at 3 important truths with regards to the separation that Jesus speaks of here.

1. Absolute: On the day of God's judgement the time for mixture in any form will be over. Today in our lives we live a mixture of doing good acts and also doing bad things. Within our churches there are those who truly know and love Jesus (righteous) and those who are unsure or do not know. On judgement day when God sends forth his angels to undertake his judgement such days of mixture will come to an end. Either we are amongst the righteous (a child of God) or amongst the unrighteous. It will be too late on that date to decide to follow Jesus! A person can not belong to both camps (there is no sitting on the fence). Either we will be with the blessed in heaven having had our sins cleansed through Jesus Christ, or we will be amongst the lost who will experience eternal separation from Him.

2. Previously Determined: The separation has been decided in the sense that it has been determined by our response/actions while living in this world. What are such actions? Going back to previous parables, have we received the seed of God's word to our hearts? [Parable of the Sower]. Have we laid aside all worldly treasures (removed all hinderances) so as to gain the greater treasure of Jesus' gospel? Have we believed in Jesus as our Lord and Saviour?

3. Permanent: In the parable of, '*The Rich Man and Lazarus*' (Luke 16), Jesus said, "*And besides all this, between us and you a great chasm has been fixed, in order that those who would pass from here to you may not do so, and none may cross from there to us,*" 26. **What did Jesus mean?** When we die, it will not be possible to move from one place to another, from hell to heaven. It will be too late! Now, while on earth is the time to decide!

These may not be pleasing words, but this is what Jesus taught and what the Bible declares. There is one person who declares, "Why all the fuss? A person does not have to decide now. There is plenty of time to decide." These are the words of Satan, the deceiver. He does not want us to be ready for heaven and he does not want us to enjoy the blessings of heaven. Do not listen to him. He does not care for your life or your soul! Listen to Jesus, who is the Truth. In this parable he speaks of the reality of a day of judgement and that now is the time to turn to God through faith in Him alone. If we want to avoid spending eternity **separated** from God we have to believe in Jesus. Being apart from loved ones now during the pandemic is difficult. How much more difficult will it be to be separated for an eternity from Jesus?

Prayer: Our Heavenly Father, thank you for keeping us safe and well during this cruel pandemic. Thank you for all the frontline workers who have sustained our nation during these difficult days. Dear God, give us patience as we await the re-opening of our chapels, so that when we do so we can return safely and with confidence.

Following a time of lockdown, thank you for greater freedom to move around our land these days. Yet, we continue to pray for families and loved ones who have been separated for so long and hope that they may be reunited soon. We give thanks for Jesus who came to this earth and died for our sins. Whilst on the cross He experienced separation from His Father for a time. By believing in Him we can enjoy His company now and receive assurance that there will not be a time when we are separated from the Father. For this we give thanks. Amen.